

Ôl Troed Gwastraff Bwyd

Amcangyfrifir bod **20%** o ôl troed carbon y DU yn gysylltiedig â bwyd. Mae hyn yn cynyddu i **30%** wrth ystyried effaith datgoedwigo i dyfu llawer o'r bwyd hwn. Mae hwn yn faes enfawr y gallwn wneud newidiadau sylweddol iddo a lleihau ein heffaith ar yr hinsawdd.

Yn fyd-eang rydym yn taflu mwy na 1/3 o'r holl fwyd bwytdawdy! Mae hyn weithiau oherwydd gorgynhyrchu, bwyd heb fod y siâp cywir neu brynu gormod a'i daflu.

Mwy o wybodaeth am wastraff bwyd



Chwilio am ysbrydoliaeth?



Yn y COP leuenctid, bydd [Eco-Sgolion Cymru](#) yn ymchwilio i pam rydym yn gwastraffu cymaint o fwyd, beth yw'r effaith ar y blaned, ac yn rhannu syniadau ynglŷn â'r hyn y gall ysgolion a chymdeithas ei wneud i fynd i'r afael â'r broblem. Rhowch gynnig ar un o'r heriau isod cyn dod. Bydd yn rhoi man cychwyn i chi lansio eich cenhadaeth lleihau gwastraff bwyd eich hun a helpu i lunio darlun Cymru gyfan.



Darganfyddwch faint o fwyd sy'n cael ei wastraffu yn eich ysgol. Un amser cinio, edrychwch a yw'n bosibl pwysu'r cynhwysydd gwastraff bwyd. Os na allwch gael mesuriad pwysau, ceisiwch amcangyfrif faint sydd yna neu tynnwch lun. Os ydych chi'n teimlo'n uchelgeisiol, ceisiwch ymestyn yr ymchwiliad hwn dros wythnos gyfan.



Os ydych yn ysgol gynradd beth am ddarganfod faint o laeth sy'n cael ei wastraffu mewn un diwrnod. Gan ddefnyddio jwg mesur casglwch unrhyw laeth dros ben i ddarganfod faint o laeth sy'n cael ei daflu.



Edrychwch dros wythnos i weld a oes math o fwyd sy'n cael ei wastraffu fwyaf bob dydd. Siaradwch â'r dysgwyr pam nad ydyn nhw'n bwyta nac yn yfed eu holl fwyd a diod.

Cwricwlwm i Gymru: Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Iechyd a lles

2.2.2 Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.

2.2.3 Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.

Y Dyniaethau

2.3.1 Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.

2.3.5 Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrion ac egwyddorol.

Mathemateg a Rhifedd

2.5.1 Defnyddir y system rifo i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

2.6.1 Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.

Nodau Datblygu Cynaliadwy



Pynciau Eco-sgolion

Lleihau gwastraff | Iechyd, Lles, a Bwyd